


Gallaf ysgrifennu dwyn i gof ar
bethau fel...

Trip ysgol



Ymwelydd i'r ysgol



Gweithgaredd yn yr ysgol




Arbrawf gwyddonol

Digwyddiadau
Hanesyddol drwy
gymeriad



Bywgraffiad / cofiant unrhyw
person ar draws y cwricwlwm



Sut i gyflwyno 'Dwyn i Gof'

Llythyr



Cerdyn post



Dyddiadur



Erthygl papur newydd

Cofiant



Hunangofiant

Cyflwyniad llafar



Rhestr wirio 'Ysgrifennu Dwyn i Gof'

Wnes i gofio ...?

Amser gorffennol



Trefn gronolegol



Person cyntaf neu'r trydydd
person



Geiriau amser




Hanesion a digwyddiadau doniol



Sylw i gloi



Addasiad o bamffled Tîm Llythrennedd Swydd Gaerhirfryn



Ysgrifennu

Dwyn i Gof



Beth yw pwrpas eich dwyn i gof?

- Ailddweud digwyddiadau fel bod y darllenwr yn gwybod pryd y digwyddodd, pwy oedd yno, beth ddigwyddodd a threfn y digwyddiadau
- Gall eich dwyn i gof fod ar ffurf **llythyr, dyddiadur, dyddlyfr teithio, cofnod trip ysgol, arbrawf gwyddoniaeth** neu adroddiad newyddion.




I bwy mae'r dwyn i gof?

- I rywun nad oedd yno ac sydd eisiau gwybod popeth am y digwyddiad!
- I chi gael darllen rhywbryd eto i'ch atgoffa am y digwyddiad!

Strwythur a threfniant

- Dechreuwch gyda Pryd y digwyddodd; pwy oedd yno; ble y digwyddodd
- Ysgrifennwch eich dwyn i gof yn nhrefn y digwyddiadau, gan ddechrau eich brawddegau gyda geiriau amser
- Dechreuwch baragraff newydd pan mae'r amser yn newid, rhywbeth newydd yn digwydd, neu pan ydych yn ysgrifennu am le neu person newydd
- Gorffennwch gyda sylw am y digwyddiadau neu sut ydych yn teimlo am beth ddigwyddodd
- Mewn gwyddoniaeth, gorffennwch gyda chasgliad yn seiliedig ar beth wnaethoch chi ddarganfod



Yr iaith i'w defnyddio

- Amser gorffennol
- Person cyntaf neu'r trydydd person
- **Geiriau amser:** Yn y bore ... Yn gyntaf ... Nesaf ... Wedi hynny ... Yn hwyrach ... Yna ... Yn y diwedd ... Yn olaf ... Cyn i ni ...
- **Geiriau disgrifio:** Diddorol, rhyfedd, hanesyddol, blinedig, arbennig, gwledig, cyffrous, anturus, erchyll, ffiaidd

Cliwiau i'r clyfar!

- Defnyddiwch hanesion - pethau doniol neu ddiddorol a ddigwyddodd yn ystod y digwyddiad yr ydych yn ei ddwyn i gof
- Stopiwch bob hyn a hyn wrth ddwyn i gof i ddisgrifio lle, person neu ddigwyddiad yn fanylach
- Difyrrwch a rhowch wybodaeth i'ch darllenwr